

Gwers 32 – Y Picnic Mawr

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Mathew 14: 13–21


Ceir adroddiadau am Iesu'n bwydo tyrfaoedd ar ddau achlysur, 4,000 yn nhiriogaeth y Cenedl-ddynion yn Nhyrus a Sidon, a 5000 yng Ngalylea.

Yr oedd Iesu, meddai Mathew yn yr adran flaenorol (Mathew 14:1–12), wedi clywed newyddion drwg am farwolaeth Ioan Fedyddiwr; roedd Herod wedi mynd ar ei lw i roi i ferch Herodias (nid yw'r efengylau yn ei henwi yn Salome), beth bynnag a fynnai. Gofynnodd y ferch am ben Ioan Fedyddiwr 'A daethpwyd â'i ben ef ar ddysgl a'i roi i'r eneth' (Mathew 14:11). Neilltuodd Iesu i le unig ond ni chafodd lonydd oherwydd clywodd y bobl a phan gyrhaeddodd Iesu'r man, roedd tyrfaoedd yno'n barod, 'tua phum mil o wŷr, heblaw gwragedd a phlant'. Er ei fod wedi blino, ni allai Iesu eu hanwybyddu a thosturiodd wrthynt ac iachaodd eu cleifion. Yr oedd yn hwyr yn y dydd ac awgrymodd ei ddisgyblion i Iesu iddo danfon y dyrfa adref i brynu bwyd iddynt eu hunain.

Ar wahân i'r wyrth fwyaf un, sef Atgyfodiad Iesu, dyma'r unig un a gofnodir gan y pedwar efengyllydd – yma gan Mathew, gan Marc 6:30–44; Luc 9:10–17 ac Ioan 6:1–14 – ac y mae rhai gwahaniaethau. Y mae Mathew, Marc a Luc yn dweud fod gan y disgyblion bum torth a dau bysgodyn, ond Ioan yw'r unig un sy'n sôn am Iesu yn gofyn i Philip, 'Ble y gallwn brynu bara i'r rhain gael bwyta?' (Ioan. 6:5). Daw Andreas i'r adwy a dywed, â'i dafod yn ei foch, 'Y mae bachgen yma a phum torth a dau bysgodyn ganddo, ond beth yw hynny rhwng cynifer?' (Ioan. 6:9).

Er bod Iesu'n gweithredu trugaredd trwyfwydo'r dyrfa, yr oedd ganddo reswm arall dros gyflawni'r wyrth, sef rhoi prawf ar ffydd ac ymddiriedaeth ei ddisgyblion ynddo ef ei hun. Y mae'r atebion yn bradychu eu diffyg ffydd ac yn llawn esgusodion. Ateb cyntaf y disgyblion i'r broblem oedd eu danfon i'r pentrefi i brynu bwyd iddynt eu hunain. Pan ddywedodd Iesu wrthynt am roi rhywbeth iddynt i'w fwyta meddent, 'Nid oes gennym yma ond pum torth a dau bysgodyn' (Mathew 14:17). Dywed Ioan wrthym fod Iesu, pan ofynnodd i Philip, 'Ble y gallwn brynu bara i'r rhain gael bwyta?' (In. 6:5), yn rhoi prawf ar y disgybl, 'Dweud hyn yr oedd i roi prawf arno, oherwydd gwyddai ef ei hun beth yr oedd yn mynd i'w wneud' (Ioan. 6:6).

Cymerodd y torthau a'r pysgod, ac wedi diolch rhoddodd hwynt i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r tyrfaoedd, a digwyddodd gwyrth. 'Bwytasant oll a chael digon, a chodasant ddeuddeg basgedaid lawn o'r tameidiau oedd dros ben' (Mathew 14:20).



Mae Iesu'n bwydo torf o 5,000 a mwy o bobl. Pa ddisgybl ddaeth â thorthau o fara a physgod bachgen at Iesu? Fedri di ddod o hyd i ddeg camgymeriad gan yr arlunydd?

Darllyn yr hanes yn Ioan 6:1-15.

Gwers 32 – Y picnic mawr

Bara i bawb | Mathew 14:13–21

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 136



Gwers 32

Y picnic mawr

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y picnic mawr tud 32

BEIBL LLIW STORI DUW

Pum torth a dau bysgodyn bach tud 243

BEIBL BACH STORI DUW

Llund bol! Tud 244

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y picnic gwych tud 102

BEIBL LLIW Y PLANT

Porthi'r 5000 tud 228

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Iesu'n bwydo llawer o bobl tud 168

BEIBL BACH I BLANT

Y picnic Mawr tud 364

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU

Y picnic anferth tud 321

BEIBL LLIW Y TEULU

Bwyd i bawb (256) tud 136

I Ddechrau

Gwnewch frechdanau tiwna/sardinau.

Sgwrsiwch am hoff fwydydd wrth i chi eu gwneud, ac yn bennaf gofynnwch sut y maent yn teimlo pan maent yn llwglyd iawn. Mae stori heddiw yn sôn am rai pobl lwglyd dros ben, a sut oedd Iesu'n gymorth.

Sgwrsiwch am hoff fwydydd.

Gellir paratoi bag o fwydydd i'r plant allu eu teimlo a cheisio dyfalu beth ydynt. Dylid cynnwys tin o diwna a rôl fara. Mae stori wir heddiw yn sôn am Iesu'n defnyddio bara a physgod.

Yr Hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Bydd angen darn mawr o bapur a phinnau ffelt arnoch. Darllenwch yr hanes eto o'r Beibl Gweithgaredd, gan oedi ar ôl pob brawddeg er mwyn i un o'r plant dynnu llun perthnasol.

Cymhwyso

Gofynnwch i'r plant sut oedd Iesu'n gallu cyflawni'r wyrth hon? Esboniwch ystyr y gair "gwyrrh" fel rhywbeth rhyfeddol yr oedd Iesu'n gallu gwneud oherwydd mai Ef yw Mab Duw. Gofynnwch i'r plant a ydynt yn cofio gwyrthiau eraill Iesu. Efallai y bydd rhywun yn awgrymu bod y gwyrthiau yn fath o gonsuriaeth. Gallwch esbonio fod consuriaeth yn dric, neu'n dwyll, ond fod Iesu yn cyflawni'r hyn sy'n amhosibl yn naturiol.

Trafodwch hefyd, rôl y bachgen yn yr hanes. Roedd y wyrth yn bosibl am ei fod ef yn fodlon rhoi'r hyn oedd ganddo i'r Iesu. Sgwrsiwch am sut y mae Iesu am ddefnyddio pobl i wneud ei waith drosto. Ydi'r plant yn nabod rhywun sy'n gwneud gwaith dros Iesu? Beth amdanynt nhw? Ydyn nhw wedi meddwl bod ganddyn nhw rywbeth all Iesu ei ddefnyddio? Gellir sôn am eu talentau a sut fyddan nhw'n gallu eu defnyddio dros Iesu.

Adnod i ddysgu

'Gwn dy fod yn gallu gwneud popeth, ac nad oes dim yn amhosibl i Ti.'
(Job 42:2)

Ysgrifennwch yr adnod ar ddarnau o bapur - pob gair ar ddarn unigol. Gosodwch y darnau ar y bwrdd o'ch blaen a rhannu'r plant yn dimoedd neu'n barau. Bydd angen dis. Mae'r plant yn cymryd tro i daflu'r dis. Os byddant yn taflu 6 dylent droi un o'r darnau drosodd. Chwaraewch nes bod y geiriau i gyd yn y golwg. Darllenwch yr adnod sawl gwaith. Dangosodd Iesu yn ystod ei fywyd nad oedd dim yn amhosibl iddo - am mai ef oedd Mab Duw!

Gweddi

Ysgrifennwch weddïau ar siapiau pysgod neu fara:

- dros bobl mewn angen.
- am gymorth Duw i weld sut y gallwn helpu eraill
- yn diolch i Dduw.

Gadewch i'r plant ddarllen eu gweddïau ac wedyn eu gludo ar ddarn mawr o bapur i greu poster o'u gweddïau.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Bwydo'r 5000 tud.*138

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Porthi'r Pum Mil

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C - Mwy o wyrthiau

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 36: Porthi'r Pum Mil

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 330

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Rhif 45: Y Picnic Mawr

Llyfrau Stori

Rhannu'r Bwyd i'r miloedd gyda Iesu Y Bachgen a roddodd ei fwyd i Iesu Pam fod Andreas wedi synnu?

